**Datganiad Strategaeth y Grant Datblygu Disgyblion**

O 2022-2023 ymlaen, bydd angen i ysgolion gwblhau a chyhoeddi datganiad ar eu strategaeth Grant Datblygu Disgyblion (GDD). Gellir gweld hyn isod.

O 2022-2023 ymlaen, bydd yn ofynnol hefyd i'r consortiwm gyhoeddi datganiad ar ei strategaeth Grant Datblygu Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer lleoliadau nad ydynt yn cael eu cynnal sy'n darparu addysg gynnar a ariennir. Dylai hyn ddilyn yr un fformat â’r templed i ysgolion isod.

## DATGANIAD STRATEGAETH Y GRANT DATBLYGU DISGYBLION

*Mae'r datganiad hwn yn rhoi manylion ynghylch defnydd ein hysgol o'r GDD ar gyfer blwyddyn academaidd 2023 i 2024.*

*Mae'n amlinellu ein strategaeth, sut rydym yn bwriadu gwario'r cyllid yn y flwyddyn academaidd hon a'r effaith a gafodd gwariant y llynedd o fewn ein hysgol.*

***Trosolwg Ysgol***

| Manylion | Data |
|---|---|
| Enw’r ysgol | Ysgol Llanhari |
| Nifer y Disgyblion yn yr Ysgol | 683 |
| Cyfran (%) o ddisgyblion sy’n gymwys i’r GDD | 7.6% |

| | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi'r datganiad hwn | Ebrill 2023 |
| Dyddiad y caiff ei adolygu | Mawrth 2024 |
| Awdurdodwyd y datganiad gan | Meinir Thomas |
| Yn arwain ar y GDD | Meinir Thomas / Elen George |
| Llywodraethwr sy’n arwain | Mrs Helen Sharey |

**Trosolwg Cyllid**

| **Manylion** | **Swm** |
|---|---|
| Dyraniad cyllid GDD y flwyddyn academaidd hon | £50, 800 |
| | |
| | |
| **Cyfanswm cyllideb y flwyddyn academaidd hon** | £50,800 |

**Rhan A: Cynllun Strategaeth**

***Datganiad o Fwriad***

*Ein nod yn Ysgol Llanhari yw lleihau’r rhwystrau sy’n wynebu disgyblion o gefndiroedd llai breintiedig. Cynigiwn gefnogaeth a darpariaeth sy’n eu cynorthwyo i gyflawni eu llawn botensial. Gwnawn hyn yng nghyd-destun gwireddu uchelgais Llywodraeth Cymru yng Nghenhadaeth ein Cenedl o safonau a dyheadau uchel i bawb.*

*Mae’n cynllun strategol yn canolbwyntio ar agweddau penodol a fydd yn gweithio tuag at wireddu’r amcan o leihau rhwystrau e.e. sicrhau darpariaeth  dysgu ac addysgu o ansawdd uchel i bob disgybl, mynediad at weithgareddau cyfoethogi i ddisgyblion prydau*

| |
|---|
| *ysgol am ddim, cynnig cymorth a mentora personol i ddiwallu anghenion emosiynol disgyblion bregus yn unol â'r Fframwaith ar gyfer iechyd a lles emosiynol a chymdeithasol.*<br><br>*Mae'r prif egwyddorion y cynllun strategaeth yn canolbwyntio ar sicrhau tegwch i ddisgyblion bregus, Bwriedir mynd ati mewn ffordd gadarn i adnabod angen mewn perthynas â disgyblion difreintiedig, eu hamgylchiadau, cyflawniad a chynnydd a chynllunio ymyraethau a fydd yn eu cynorthwyo i wneud cynnydd a chyflawni potensial.* |

***Canlyniadau a fwriedir***

Mae hyn yn esbonio'r canlyniadau rydym yn anelu atynt **erbyn diwedd ein cynllun strategaeth presennol**, a sut y byddwn yn mesur a ydynt wedi'u cyflawni.

| **Canlyniad a fwriedir** | **Meini prawf llwyddiant** |
|---|---|
| Canolbwyntio ar wella presenoldeb disgyblion PYD trwy weithredu strategaethau penodol ar y cyd â system dracio presenoldeb arferol yr ysgol | Targed o 86% presenoldeb disgyblion PYD wedi ei gyrraedd |
| Tracio agwedd at ddysgu a chynnydd disgyblion PYD ar draws yr ysgol yn amlygu bod y disgyblion yn cyflawni potensial.<br>Sefydlu grwpiau tangyflawnwyr o blith y garfan PYD ymhob blwyddyn uwchradd / adran gynradd | Taflenni tracio agwedd at ddysgu a chynnydd mewnol (yn unol â gofynion CiG) yn amlygu bod y disgyblion yn cyflawni potensial.<br><br>Data arholiadau allanol yn dangos bod disgyblion PYD yn cyflawni potensial |
| Datblygu ymwybyddiaeth athrawon a staff atodol o arferion da Dysgu ac Addysgu trwy fabwysiadu egwyddorion o lyfr Paul Dix | Arsylwadau gwersi a llais y disgybl yn cadarnhau bod yr egwyddorion dysgu ac addysgu yma ar waith yn yr ysgol ac yn |

| | |
|---|---|
| *When the adults change* a *Running the Room* Tom Bennett | cynnig cyfle cyfartal i bob disgybl. |
| Disgyblion PYD â mynediad i'r holl ddarpariaeth gwricwlaidd ac allgyrsiol, heb fod tlodi yn rwystr i ddysgu na chyfranogia. | Dadansoddiad o gyfranogiad disgyblion PYD mewn gweithgareddau yn cadarnhau bod hyn yn digwydd fel mater o arfer yn yr ysgol |
| Sicrhau bod cefnogaeth staff arbenigol ar gael i bob disgybl gan gynnwys disgyblion bregus. | Cefnogaeth arbenigol yn golygu bod disgyblion bregus yn ffynnu yng nghymuned yr ysgol gyda gwelliant o ran presenoldeb, personoli y dysgu a thystiolaeth o agwedd dda at ddysgu yn arwain at gynnydd academaidd. |

**Gweithgarwch yn y flwyddyn academaidd hon**

Mae hyn yn rhoi manylion sut rydym yn bwriadu gwario ein GDD **y flwyddyn academaidd hon** i fynd i'r afael â'r heriau a restrir uchod.

1. Cyfraniad at gyflog swydd gweinyddol Lles a Chynhwysiant
2. Darparu hyfforddiant *When the adults change* a monitro effaith yr hyfforddiant
3. Neilltuo swm penodol o gyllid i gyfrannu at weithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol
4. Cyfraniad at gyflog y swyddog llesiant ysgol gyfan a chynorthywdd Lles a Chynhwysiant Lefel 3 yn yr adran gynradd

**Dysgu ac addysgu**

Cost wedi'i chyllidebu: £8000

| Gweithgaredd | Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn |
|---|---|
| Darparu hyfforddiant *When the adults change* a monitro effaith yr hyfforddiant | Cyflwynwyd y gwaith hwn mewn cynhadledd i benaethiaid RCT ac fe benderfynwyd fel Tim Arwain y byddai hyfforddiant ar hwn yn addas o ran sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl, gan gynnwys y disgyblion bregus. |
| Grwp o staff i wneud ymchwil weithredol ar argymhellion Tom Bennett *Running the Room* | Cyflwynwyd y gwaith hwn hefyd mewn cynhadledd i benaethiaid RCT. Penderfynwyd treialu gyda grwp allweddol o staff yn y lle cyntaf cyn rhaeadru i weddill y staff. |

**Ysgolion Cymunedol**

Cost wedi'i chyllidebu: £ 20,000

| Gweithgaredd | Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn |
|---|---|
| Cyfraniad at gyflog swyddog llesiant yr ysgol. Rhan hanfodol o'i gwaith yw gweithio â rhieni ac asiantaethau fel Resilient Families sy'n cefnogi'r disgyblion. | Wrth gyflogi swyddog llesiant, ceir cyfle i fonitro cynnydd a lles emosiynol y disgyblion yn rheolaidd. |

**Strategaethau ehangach (er enghraifft a lle bo hynny'n berthnasol, Iechyd a Lles, Cwricwlwm a Chymwysterau, Arweinyddiaeth a Chodi Dyheadau)**

Cost wedi'i chyllidebu: £ 22,800

| Gweithgaredd | Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn |
|---|---|
| Yn dilyn y galw yn ystod 2022-23, cynyddu'r swm sydd ar gael ar gyfer cyfraniad at adnoddau offerynnol TG/ dysgu | Disgyblion bregus yn cael cyfle cyfartal i ddarpariaeth sydd ar gael i bob disgybl |

| | |
|---|---|
| digidol,Gwersi offerynnol/clybiau/ymweliadau addysgol i'r disgyblion hynny sy'n wynebu rhwystrau ariannol, Ni fydd cost yn rhwystr i unrhyw ddisgybl sydd am anelu'n uchel (£5000) | |
| Cyfraniad at gyflog swyddog gweinyddol Lles a chynhwysiant er mwyn sicrhau prosesau cadarn i fonitro a gwella presenoldeb disgyblion PYD er mwyn iddynt gyrraedd eu llawn botensial. Cydweithio ag asiantaethau a theuluoedd.(£9000) | Monitro agosach yn cynnig cyfle i wella % presenoldeb disgyblion PYD.a grwp targed disgyblion bregus. |
| Cyfraniad at gyflog cynorthwydd sy'n gyfrifol am Hafan (lles) yr adran gynradd. Mae sefydlu'r Hafan cynradd ym Medi 2022 wedi golygu bod pwynt cyswllt penodol ar gyfer lles yn yr adran gynradd, lle mae disgyblion yn derbyn cynhaliaeth emosiynol megis ELSA. (£8,800) | Darpariaeth lles yr Hafan ers Medi 2022 wedi bod yn gynhaliaeth ragorol i nifer o ddisgyblion bregus ac mae yr angen yn fawr i hyn barhau yn 2023-24 |

**Cyfanswm cost y ceisiadau: £ 50,800**

**Rhan B: Adolygiad o ganlyniadau'r flwyddyn academaidd flaenorol**

***Canlyniadau'r GDD***

Mae hyn yn rhoi manylion yr effaith a gafodd ein gweithgarwch GDD ar ddisgyblion ym mlwyddyn academaidd 2022 i 2023.

*gw. y gwerthusiad ar gynllun llynedd sydd wedi ei atodi*

***Rhaglenni a ddarperir yn allanol***

*Dylech gynnwys enwau unrhyw raglenni a brynwyd gennych yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol. Bydd hyn yn ein helpu i ganfod pa rai sy'n boblogaidd yng Nghymru.*

| Rhaglen | Darparwr |
|---|---|
| dd/b | |
| | |

**Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)** – *gwerthusiad Cynllun GGD 2022-23*

| | Camau gweithredu | Pwy | Dyddiad Dechrau | Dyddiad Gorffen | Cost | Monitro | Gwerthusiad Haf/Medi 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2, 7 | Sicrhau prosesau cadran i fonitro a gwella presenoldeb disgyblion PYD er mwyn iddynt gyrraedd eu llawn botensial. Cydweithio ag asiantaethau a theuluoedd. | ELG | Ebrill 2022 | Mawrth 2023 | £5,000 tuag at gyflog Swyddog Presenoldeb. | ELG | Bwlch rhwng presenoldeb disgyblion PYD yr ysgol a'r disgyblion eraill wedi gwella ychydig eleni. Bwlch o 10% yn 2021-22 wedi ei leihau i fwlch o 8% 2022-23. Er gwaethaf cyd-weithio agos gydag asiantaethau allanol a swyddog lles RCT, mae'r bwlch yn parhau. Hyn yn parhau yn fater gweithredu ar gyfer 2023-24 eto. Mae angen ymyrraeth gynharach eto. |
| 2, | **Datblygu dull systematig ar gyfer ymyriadau**: | EHS | Ebrill | Mawrth 2023 | £23,050 tuag at gyflog | EHS Tracio cyson rheolaidd | Tracio cyson a rhaglen |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3, 5 | • Staff Cynnal Dysgu i adolygu a sicrhau darpariaeth ymyrraeth addas i'r disgyblion sydd angen dal i fyny. Cyfraniad tuag at gyflog Cynorthwy-wyr Dosbarth/Cynnal Dysgu ar draws yr ysgol Cyfnod Sylfaen – CA3<br><br>• Meithrin ymdeimlad o lwyddiant: Gwobrwyo – ee presenoldeb, tystysgrifau ayb | <br><br><br><br><br><br><br><br>ASC | 2022<br><br><br><br><br><br><br><br><br>Ebrill 2022 | <br><br><br><br><br><br><br><br>Mawrth 2023 | cynorthwywyr<br><br><br><br><br><br><br><br>£1000 | o gynnydd y disgyblion ac addasu'r ymyrraeth.<br><br><br><br>.<br><br><br><br>ELG + ASC | gynhwysfawr eleni. Disgyblion yn cael eu hail-brofi Mehefin 2023 i wirio effaith yr ymyraethau llythrennedd a rhifedd. Strwythur y tîm yn effeithiol a'r arweinyddiaeth yn ardderchog. Disgyblion wedi eu gwobrwyo yn gyson mewn gwasanaethau er mwyn meithrin ymeimlad o lwyddiant. |
| 3 | Trefnu darpariaeth o ansawdd uchel ar gyfer dysgwyr sy'n profi anfantais sylweddol - siaradwyr ABCh, gwella dysgu ac addysgu ee adborth i ddisgyblion ( cost cyflenwi i staff graffu ar lyfrau) HMS, , llungopïo pecynnau ymyrraeth, dogfennaeth, adnoddau ychwanegol | ASC/EHS/ ELG | Ebrill 2022 | Mawrth 2023 | £3000 | TA | Disgyblion i gyd, gan gynnwys disgyblion bregus wedi elwa o raglen gynhwysfawr ABCh eleni. Mae angen mireinio ar gyfer 2023-24 i sicrhau sylw priodol i bob elfen statudol o'r cwricwlwm. Agweddau eraill ar y ddarpariaeth wedi digwydd yn llwyddiannus hefyd. |
| 4 a 5 | Cyfraniad at adnoddau offerynnol TG/ dysgu digidol,Gwersi offerynnol/clybiau/ymweliadau addysgol i'r disgyblion hynny sy'n wynebu rhwystrau ariannol | ELG | Ebrill 2022 | Mawrth 2023 | £3,000 | TA | Nifer o ddisgyblion wedi elwa e.e. cyrsiau preswyl i'r Bae, Llangrannog a Glanllyn ynghyd ag un disgybl PYD ar gwrs Safon Uwch Cymraeg i Lanllyn. Mae galw cynyddol am |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | gefnogaeth felly cynyddir y swm ar gyfer grant 2023-24 |
| 1 5 6 a 7 | Cyfraniad at gyflog Rheolwr Iechyd a Lles<br><br>Cyfraniad at gyflog CALU i redeg yr Hafan Lles | ELG<br><br>ELG | Ebrill 2022<br><br>Ebrill 2022 | Mawrth 2023<br><br>Mawrth 2023 | £15,000<br><br>£7,450 | ELG fel rheolwr llinell. Monitro cynnydd a lles emosiynol y disgyblion yn rheolaidd. . | Cefnogaeth y ddau aelod o staff yma yn allweddol wrth geisio cynnal disgyblion yn emosiynol. Mwy o ffocws wedi bod eleni ar werthuso effaith y gefnogaeth. Tystia’r cyfarfodydd fesul tymor i hyn. |